

'Prydau ar glud Dolwyddelan'

Wedi eu paratoi'n ffres gan staff cegin Ysgol Dolwyddelan.

Ar gael ddydd Mawrth a dydd Iau (yn ystod tymor yr ysgol).
Mae'r pryd ar ddydd Iau bob amser yn 'Ginio Sul' bendigedig.
Fel rhan o'r prydau fe gewch chi brif cwrs sylweddol a phwddin.



Gallwn gludo'r prydau i'ch cartref, neu os ydy hi'nwell gennych chi, gallwch eu casglu o'r ysgol.

Mae unrhyw un sy'n teimlo y buasen nhw'n elwa o'r gwasanaeth hwn yn gymwys i archebu prydau.

Dim ond £3.84 fesul pryd

I archebu, neu i wybod mwy, cysylltwch gydag **Ali** ar **07538525096**

SEREN

Seren Ffestiniog Cyf

Sefydlwyd Seren Ffestiniog i gefnogi pobl ag anableddau dysgu, a thrwy hynny darparu gwasanaeth i'r gymuned. Rydym yn parhau i ehangu a thyfu yn sylweddol. Seren Ffestiniog yw un o fentrau cymdeithasol mwyaf blaenllaw Cymru. Fe'i sefydlwyd yn 1996 a phrif nod y cwmni yw cynnig cymorth proffesiynol i bobl ag anableddau dysgu yn ne Gwynedd. Mae gan Seren amrywiaeth o brosiectau o amgylch yr ardal leol. Mae'r rhain yn cynnwys . . .

- Canolfannau dodrefn ym Mhorthmadog a Blaenau Ffestiniog yn gwerthu dodrefn ail-law a newydd.
- Rydym hefyd yn casglu rhoddion dodrefn am ddim.
- Canolfan grefft sydd yn gwerthu eitemau personol a chrefftau.
- Siop stryd fawr sy'n gwerthu crefftiau, anrhegion a dillad.
- Canolfan arddio therapiwtig sy'n gwerthu basgedi crog a choed tân.
- Canolfan ailgylchu tecstilau sy'n casglu tecstilau diangen. Mae ein biniau rhodd wedi'u lleoli o amgylch gwynedd neu gallwch eu gollwng yn un o'n canolfannau dodrefn.
- Mae gennym hefyd siop sy'n gwerthu dillad ail-law i'r cyhoedd.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni ar 01766 832 378, info@serencyf.org
neu ewch i'n gwefan www.serencyf.org**